# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd D R Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Alun M. Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones, R.Ll. Jones, Raymond Jones, Richard Owain Jones, Dylan Rees.<br><br>Cynghorydd R.A. Dew – Aelod Portffolio (Priffrydd, Eiddo ac Rheoli Gwastraff)<br><br>**Aelodau eraill o'r Cyngor Sir a wahoddwyd i'r Pwyllgor**<br><br>Y Cynghorydd Ann Griffith, K.P. Hughes, T. Victor Hughes, Llinos M. Huws, Aled M. Jones, R. Meirion Jones, Bob Parry OBE, Nicola Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaeth (Amgylchedd a Thechnegol),<br>Uwch Swyddog Rheoli Gwastraff (ME),<br>Swyddog Sgriwtini (GWR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Steffan Owen (Rheolwr Prosiect),<br>Mr. Jonathan Beb – Amec (Ymgynghorydd Technegol),<br>Mr. John Bruce – Pinsent Masons (Ymgynghorydd Cyfreithiol),<br>Mr. Saeefer Rehman – Grant Thornton (Ymgynghorydd Cyllidol),<br>Mr. Huw Roberts (Partnerships UK) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr John Griffith, W T Hughes a Dafydd Rhys Thomas |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2014.

  Materion yn codi

**Cymunedau'n Gyntaf – Ynys Môn**

Dywedodd y Swyddog Sgriwtini bod Cymunedau'n Cyntaf Cyf wedi gwrthod y cais gan y Pwyllgor hwn i gyhoeddi eu cofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd ar eu gwefan. Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees ei fod yn siomedig yn hyn o beth.

- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2014.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**4 PROSIECT TRÎN GWASTRAFF RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol a'r Prif Swyddog Rheoli Gwastraff.

Rhoddodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff gyflwyniad ar gefndir y Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC) a'r angen i gael gwared o wastraff gweddilliol er mwyn cyfarfod a thargedau cael gwared ar wastraff Llywodraeth Cymru. Nododd bod 45% o'r gwastraff gweddilliol ym Môn yn cael ei drosglwyddo i dirlenwi. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y dylai pob awdurdod lleol fod â'r nod o ailgylchu hyd at 70% o'u gwastraff erbyn 2025. Bydd Awdurdodau'n wynebu dirwyon posibl o £200 y dunnell am fethu â chyfarfod â'r targed hwn. Ar hyn o bryd mae Ynys Môn yn ailgylchu hyd at 55%. Dywedodd y Swyddog ymhellach bod gallu cydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn gofyn am i wastraff gweddilliol gael ei losgi ac i gynhyrchu ynni ar ôl hynny. Mae 5 allan o'r 6 Awdurdod yng Ngogledd Cymru yn y Prosiect.

Dywedodd y Rheolwr Prosiect i'r broses gaffael PTGGGC ddechrau gyda chyhoeddi'r OJEU ym mis Gorffennaf 2010. Roedd y Bartneriaeth wedi hysbysebu'r contract ar sail technoleg a safle niwtral a thrwy hynny roi'r cyfle gorau i'r farchnad ddod â'r datrysiad mwyaf amgylcheddol, economaidd a thechnolegol ddilys gerbron y Bartneriaeth. Ym mis Rhagfyr 2013, cyflwynodd Cwmni 'X' dendr terfynol ar gyfer y cyfleuster Ynni newydd o wastraff ar Stad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy fydd yn gallu prosesu 175,000 tunnell y flwyddyn. Rhoddodd Mr Owen a Mr Jonathan Bebb o Amec (Ymgynghorwyr Technegol) gyflwyniad manwl ar gefndir y cyfleuster arfaethedig gan amlygu'r risgiau allweddol a materion Iechyd a Diogelwch i'r Pwyllgor.

Amlinellodd Mr. Rehamn o Grant Thornton (Ymgynghorwyr Ariannol) a Mr. John Bruce o Pinsent Masons (Ymgynghorwyr Cyfreithiol) rai manylion am ymrwymiadau

ariannol a chyfreithiol a’r gwaith enfawr sydd wedi ei wneud i gael y contract gorau bosibl ar gyfer Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.

Rhestrir isod rhai o’r prif faterion a godwyd gan Aelodau’r Pwyllgor:-

- Materion Iechyd a Diogelwch;
- Ymrwymiadau Ariannol;
- Ymrwymiadau Cyfreithiol;
- Cyfyngiadau ar ddeunyddiau gwastraff fydd yn cael eu llosgi;
- Materion Llygru’r Aer;
- Diogelu Iechyd;
- Manteision Cymunedol;
- Manteision Rhyng-awdurdod;

Roedd Y Cadeirydd yn dymuno iddo gael ei gofnodi bod angen amlygu’r cymalau dirwyo (fel oedd wedi eu nodi yn yr adroddiad) yng nghyswllt tynnu yn ôl o’r prosiect.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a’r argymhellion oedd ynddo.**

**GWEITHREDU: Bod yr adroddiad a’r argymhellion yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Gwaith a’r Cyngor llawn yn y man.**

**CYNGHORYDD D R HUGHES**
**CADEIRYDD**